

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO

ARCHWILIAD

ATODLEN MATERION A CHWESTIYNAU

Nodiadau Pwysig:

- Diben yr archwiliad yw penderfynu a yw Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn gadarn yn unol â Llawlyfr y CDLI, Argraffiad 2. **I fod yn gadarn, rhaid i'r Cynllun: fod yn gyson â dogfennau perthnasol eraill; yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth; dylai fod modd ei gyflawni a dylai fod yn effeithiol.**
- Ni ddylai cyfranogwyr ond ymateb i'r cwestiynau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd ganddynt eisoes ar y cynllun. Nodwch yn glir yn eich datganiad(au) y cwestiwn / cwestiynau rydych chi'n eu hateb.
- Dylai datganiadau pellach fod yn gymesur o ran hyd i nifer y cwestiynau sy'n cael eu hateb ac ni ddylent, gyda'i gilydd, fod yn fwy na 3,000 o eiriau i bob Mater.
- Rwy'n archwilio'r cynllun fel y'i cyflwynwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Felly, ar hyn o bryd, ni fyddaf yn ystyried rhinweddau datblygu safleoedd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun.
- **Os oes gennych gwestiynau mewn perthynas â'r ddogfen hon neu unrhyw agwedd ar yr Archwiliad yna cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen, Caroline Llewellyn, ar 07773932339 (symudol) neu 01646 624800 neu dros yr e-bost at programmeofficer@arfordirpenfro.org.uk**

Mater 1 – Paratoi'r Cynllun a Strategaeth y Cynllun

Mater - A yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydymffurfio â'r gyfraith, ac a oes cyfiawnhad dros Strategaeth y CDLI ac a yw'n debygol o fod yn effeithiol o ran sicrhau y gellir diwallu anghenion datblygu Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro drwy gydol cyfnod y Cynllun mewn ffordd sy'n cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy?

Paratoi'r Cynllun

1. A yw'r Cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r gofynion gweithdrefnol angenrheidiol?
 - a) A yw'r Cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau?
 - b) A yw'r Cynllun wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd / Asesiad Priodol cadarn?
 - c) A yw'r Cynllun wedi cael ei lywio gan ystyriaeth gadarn o ddewisiadau amgen rhesymol?
 - d) A yw'r Cynllun wedi ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?
 - e) A yw'r Cynllun wedi bod yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb?

2. A yw'r Cynllun yn rhoi disgrifiad cywir a chyson o ardal y Cynllun?
- A yw fformat y Cynllun, yn enwedig mewn perthynas â rhifo polisiâu strategol ac anstrategol, y cyfeiriadau at bolisiau a'r defnydd o droednodiadau, yn glir ac yn gyson?

Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth

3. A yw Gweledigaeth y Cynllun yn ddigon uchelgeisiol a phenodol i leoliad i ffurfio sail ar gyfer cynllunio hyd at 2031?

- A adolygwyd y Weledigaeth fel rhan o'r broses o lunio cynllun newydd, ac a yw wedi ystyried Cynllun Rheoli Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Integredig Sengl?

4. A yw amcanion y Cynllun yn rhai 'CAMPUS' ac yn gallu cyflawni'r Weledigaeth a nodir?

- A gawsant eu hadolygu fel rhan o'r broses o wneud cynlluniau newydd?
- A ddylid diwygio Amcan E i gyfeirio at yr angen i gynnal cymunedau lleol?

5. A yw Strategaeth y Cynllun yn ddull priodol o gyflawni, rheoli a dosbarthu twf dros gyfnod y Cynllun?

- A ddylai'r Cynllun gynnwys Diagram Allweddol?
- Sut y deilliodd y Strategaeth, a gafodd ei hadolygu fel rhan o'r broses o lunio cynlluniau newydd ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn?
- Beth yw cydrannau allweddol y Strategaeth a sut maent yn rhyngweithio?
- A fydd y Strategaeth yn cyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion?
- Sut y deilliwyd elfennau gofodol a thwf y Strategaeth, ac a ddylid eu mynegi mewn polisiâu strategaeth penodol?
- A yw'r Strategaeth yn cynrychioli dull cynaliadwy o gynllunio, dros gyfnod y cynllun, ac a yw'n cysylltu trafniadaeth, cyflogaeth a thwf preswyl yn effeithiol?
- A yw'r Strategaeth wedi'i llywio gan ganfyddiadau'r asesiadau o'r farchnad dai leol?
- A yw'r Strategaeth yn gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen? A yw'n mabwysiadu'r dull dilyniannol o ryddhau tir fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru?
- A yw'r Strategaeth a'r fframwaith polisi yn gyson â pholisi cenedlaethol sy'n ymwneud â Pherygl Llifogydd?

6. A yw Strategaeth y Cynllun yn gyson / gydnaws â'r cynlluniau a'r strategaethau a ganlyn?

- Cynllun Gofodol Cymru a pholisi cenedlaethol eraill?
- Cynlluniau a strategaethau rhanbarthol?
- Cynlluniau / strategaethau awdurdodau cyfagos?
- A yw'r Cynllun yn adlewyrchu strategaethau a chynigion darparwyr seilwaith?

7. Sut mae'r Hierarchaeth Aneddiadau wedi'i llunio, ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn?

- A yw'r Hierarchaeth Aneddiadau wedi cael ei hadolygu fel rhan o'r broses o lunio cynlluniau newydd?
- A yw strwythur yr Hierarchaeth Aneddiadau yn dangos unigrywiaeth leol?

- c) A yw gofynion Polisi 2 yn glir, a yw'n darparu fframwaith priodol ar gyfer datblygiadau newydd yng Nghanolfan Gwasanaethau Lleol a Thwristiaeth Dinbych-y-pysgod, ac a ddylai gyfeirio at yr angen a awgrymir am farina a gwella Ynys Santes Catrin?
- d) A yw Polisi 3 yn glir ac a yw'n darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli datblygiad yn Nhrefdraeth?
- e) A yw gofynion Polisi 5 yn darparu mecanwaith clir a phriodol ar gyfer rheoli datblygiad yng Nghanolfan Leol Tyddewi?
- f) A yw gofynion Polisi 6 yn glir, a yw'n darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli datblygiadau mewn ardaloedd gwledig, ac a ddylid cynnwys gofynion brawddeg gyntaf paragraff 4.46 yn y Polisi?
- g) A yw gofynion Polisi 7 yn glir ac a yw'n darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli datblygiad yng nghefn gwlad?

8. A yw'r dull o ddewis safleoedd yn ddigon clir a thryloyw, ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn?

- a) A yw'r safleoedd a ddyrannwyd yn seiliedig ar fethodoleg gadarn o asesu safle gadarn sy'n ystyried yr holl gyfyngiadau posibl?
- b) A ystyriwyd yr holl ofynion seilwaith i sicrhau bod safleoedd a ddyrannwyd yn cael eu cyflawni'n yn unol â'r amserlen ofynnol?

9. A fydd gofynion Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mewn perthynas â systemau draenio cynaliadwy yn cael effaith ar gapasiti datblygu, hyfywedd a / neu gyflenwad safleoedd a ddyrannwyd?

11. A fydd y Cynllun yn cael ei gefnogi gan Ganllawiau Cynllunio Atodol?

Mater 2 - Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol

Mater: A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol sydd wedi'i seilio'n gadarn, wedi'i gyfiawnhau ac sy'n gyson â gofynion polisi cenedlaethol?

Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol

1. A yw Polisi 8 yn rhoi digon o amddiffyniad ar gyfer Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol, ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn?

- a) A yw'r polisi'n gyson â gofynion deddfwriaeth arall a'r polisi cynllunio cenedlaethol?
- b) A yw gofynion Polisi 8(e) yn glir ac a yw'n darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli effaith datblygiad ar ecosystemau'r Parc Cenedlaethol?

2. A yw'r fframwaith ar gyfer asesu a rheoli effaith llygredd golau ym Mholisi 9 yn glir ac yn gyson â pholisi cenedlaethol?

Cadwraeth Natur

3. A yw'r Cynllun yn darparu lefel briodol o ddiogelwch ar gyfer safleoedd bioamrywiaeth, cadwraeth natur a phwysigrwydd daearegol statudol ac anstatudol?

- a) A yw Polisiâu 10, 11, 12 a 13 yn gyson â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol a deddfwriaeth arall?

- b) A yw Polisi 12 yn darparu fframwaith polisi priodol ar gyfer asesu a rheoli effaith cynigion datblygu ar Safleoedd Cadwraeth Natur neu Bwysigrwydd Daeregol Lleol, a yw'r dynodiadau sydd wedi'u cynnwys yn y polisi wedi'u nodi yn y Cynllun ac wedi'u hanodi ar y Map Cynigion?
- c) A yw Polisi 13 yn darparu fframwaith polisi priodol ar gyfer asesu a rheoli effaith cynigion datblygu ar fioamrywiaeth?

Y Gymraeg

- 4. A yw strategaeth y Cynllun yn diogelu buddiannau'r Gymraeg yn ddigonol?
 - a) Sut y diffiniwyd yr aneddiadau a nodwyd ym mharagraff 4.80, ac a ddylid eu cynnwys ym Mholisi 14?
 - b) I ba raddau y mae gofynion Polisi 14 yn berthnasol?
 - c) Pa fath o fesurau lliniaru sy'n briodol yn y Parc Cenedlaethol?

Treftadaeth

- 5. A yw Polisi 15 yn glir ac yn gyson â gofynion Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016?

Tirwedd, Mannau Agored Cyhoeddus a Lletemau Glas

- 6. A yw Polisi 16 yn darparu fframwaith polisi priodol ar gyfer asesu a rheoli effaith cynigion datblygu ar y dirwedd a'r forwedd?
- 7. A ddylid dileu Polisi 17 a'i ddisodli gan bolisiau ar wahân ar gyfer diogelu a darparu mannau agored cyhoeddus a dynodi Lletemau Glas?
 - a) A oes cyfiawnhad dros ddynodi 43 o letemau glas, ac a ydynt wedi'u hategu gan dystiolaeth gadarn ac a gawsant eu hadolygu fel rhan o'r broses llunio cynlluniau newydd?
 - b) A yw'r Cynllun yn darparu mecanwaith priodol ar gyfer diogelu mannau agored cyhoeddus newydd, a sicrhau eu bod yn cael eu darparu?
 - c) A yw ffiniau'r mannau agored cyhoeddus wedi'u hanodi ar y mapiau mewnosod C41 a C42 – Dinbych-y-pysgod yn gywir?
- 8. A yw Polisi 19 yn darparu mecanwaith priodol ar gyfer rheoli datblygiad o fewn Harbyrau Porth-gain, Saundersfoot, Solfach a Dinbych-y-pysgod, ac a ddylai gyfeirio at harbyrau llai eraill yn y Parc Cenedlaethol?

Mater 3 - Datblygiad Mawr, y Potensial ar gyfer Twf

Mater: A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli datblygiadau mawr yn y Parc Cenedlaethol sydd â sail gadarn, sydd wedi'u cyfiawnhau ac sy'n gyson â gofynion polisi cenedlaethol?

Datblygiad Mawr

- 1. A yw'r esboniad o Ddatblygiad Mawr ym mharagraff 4.117 yn ddigon clir?
- 2. A ddylai Polisi 21 gael ei adleoli i Bennod Dibenion a Strategaeth Ofodol y Parc Cenedlaethol?

Mwynau

3. Sut fydd y galw am fwynau, o ran craig galed a thywod a graean, yn cael ei ddiwallu dros gyfnod y Cynllun, ac a yw'r dull hwn yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol?

4. A yw'r Cynllun yn diogelu adnoddau mwynau yn ddigonol?

5. A yw'r Cynllun yn darparu clustogfeydd digonol o amgylch cronfeydd mwynau?

Gwastraff

6. A yw strategaeth wastraff y Cynllun yn gyson â pholisi cenedlaethol?

7. A yw gofynion Polisi 29(e) ac (f) yn glir?

Mater 4 - Newid Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy, Ynni Adnewyddadwy a Llifogydd

Mater: A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli Newid yn yr Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy, Ynni Adnewyddadwy a Llifogydd yn y Parc Cenedlaethol sydd wedi'i seilio'n gadarn, wedi'i gyfiawnhau ac yn gyson â gofynion polisi cenedlaethol?

Dylunio Cynaliadwy

1. A yw Polisi 30 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli dylunio da ym mhob math o ddatblygiad?

Ynni Adnewyddadwy

2. A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith polisi priodol ar gyfer gwireddu potensial yr ardal ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy?

Llifogydd a Llifogydd Arfordirol

3. A yw Polisiâu 33 a 35 yn darparu fframwaith cadarn a chyson ar gyfer rheoli draeniad dŵr wyneb, llifogydd a gorlifo arfordirol?

4. A yw Polisiâu 37 a 38 yn darparu mecanwaith clir a chyson ar gyfer rheoli'r broses o adleoli ac adnewyddu anheddau / datblygiadau yr effeithir arnynt gan newid arfordirol?

5. A yw'r Cynllun yn cael ei gefnogi gan asesiad strategol o ganlyniadau llifogydd?

- a) A yw'r holl ddyraniadau wedi bod yn destun methodoleg asesu gadarn ac a yw'r holl ddyraniadau yn gyson â'r dull o ymdrin â llifogydd a nodir yn y polisi cenedlaethol?

Mater 5 - Economi Ymwelwyr, Cyflogaeth, Cyfleusterau Cymunedol, Manwerthu a Thrafnidiaeth

Mater: A yw gofynion y Cynllun ar gyfer economi ymwelwyr, cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol, manwerthu a thrafnidiaeth gynaliadwy yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth gadarn a chredadwy ac yn gyson â pholisi cenedlaethol?

Economi

1. Beth yw strategaeth gyffredinol y Cynllun ar gyfer economi'r Parc Cenedlaethol, ac a yw'n cael ei chefnogi gan dystiolaeth gadarn?

Economi Ymwelwyr

2. A yw'r Cynllun, trwy Bolisi 39, yn darparu fframwaith priodol ar gyfer ystyried cynigion ar gyfer llety, cyfleusterau ac atyniadau twristiaeth newydd neu well?

3. A yw Polisi 40 yn darparu fframwaith priodol i reoli'r defnyddiau amgen ar gyfer pob datblygiad twristiaeth presennol?

4. Pam mae Polisiâu 39(d) a 41 yn atal adeiladu llety hunanarlwyo newydd ar safleoedd tir glas, ac a yw'r dull hwn yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn?

5. A yw gofynion Polisiâu 42 a 43 yn glir ac yn gyson â pholisi cenedlaethol?

Cyflogaeth

6. A yw strategaeth gyflogaeth y Cynllun wedi'i seilio ar sylfaen dystiolaeth gadarn ac a yw'n gyson â'r polisi cenedlaethol?

- a) Beth yw'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno newid ym marchnad gyflogaeth y Parc Cenedlaethol? Sut mae'r Cynllun wedi mynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn?
- b) A ddylai'r Cynllun ddyrannu tir ar gyfer datblygiad sy'n gysylltiedig â chyflogaeth?
- c) A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith clir ar gyfer datblygu mentrau gwledig?

7. A yw'r Cynllun yn darparu amddiffyniad digonol ar gyfer tir ac eiddo cyflogaeth presennol?

- a) A yw'r sylfaen dystiolaeth yn cynnwys dadansoddiad meintiol ac ansoddol cadarn o'r tir a'r eiddo cyflogaeth presennol?
- b) A yw Polisi 45 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer diogelu safleoedd cyflogaeth allweddol presennol?
- c) Sut fydd cynigion ar gyfer defnyddiau amgen yn cael eu hasesu?

Manwerthu

8. A yw strategaeth fanwerthu'r Cynllun wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn, ac a yw'n gyson â'r polisi cenedlaethol?

- a) A yw'r strategaeth fanwerthu yn ystyried y twf a ragwelir mewn sectorau eraill, yn enwedig tai a'r economi ymwelwyr?
- b) A ddylai Polisi 54 gynnwys cyfeiriad at yr angen am arwynebedd llawr manwerthu newydd yn y Parc Cenedlaethol dros gyfnod y Cynllun?

- c) Sut fydd yr angen hwn am arwynebedd llawr manwerthu ychwanegol yn cael ei ddiwallu?
- d) A yw gofynion Polisi 56 yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth gadarn?

9. A yw polisiâu manwerthu'r Cynllun yn darparu lefel briodol o ddiogelwch a hyblygrwydd i reoli hierarchaeth ardaloedd siopa?

- a) Sut fydd y Cynllun yn asesu cynigion ar gyfer ailddatblygu eiddo manwerthu presennol ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn rhai manwerthu?

10. A yw strategaeth fanwerthu'r Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid ac a yw'n cynnwys mecanweithiau clir a phriodol ar gyfer gweithredu a monitro?

Cludiant

11. A yw'r Cynllun yn hyrwyddo integreiddio a chydlynu mesurau trafndiaeth a chynllunio defnydd tir yn ddigonol?

- a) A ddylai'r Cynllun restru'r cynlluniau Ffyrdd a Beicio a nodwyd yn Nhabl 3 y Papur Cefndir Trafndiaeth Gynaliadwy (NPA068)?

12. A yw'r Cynllun yn hyrwyddo teithio llesol yn ddigonol, ac yn lleihau'r angen am deithio?

13. A yw gofynion Polisi 58 yn glir ac yn gyson â gofynion y polisi cenedlaethol?

Cyfleusterau Cymunedol

14. A yw agwedd y Cynllun at gyfleusterau cymunedol yn briodol ac wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn?

15. A yw Polisi 53 yn darparu dull priodol o sicrhau cyfleusterau a seilwaith cymunedol newydd?

- a) A yw'r polisi'n darparu fframwaith priodol ar gyfer diogelu cyfleusterau a seilwaith cymunedol presennol a'u darparu yn y dyfodol?
- b) A yw'r polisi'n darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer sicrhau rhwymedigaethau cynllunio?

Mater 6 - Darpariaeth a Dosbarthiad Tai

Mater: A yw'r ddarpariaeth a dosbarthiad tai wedi'u seilio'n gadarn, wedi'u hategu gan dystiolaeth gadarn a chredadwy ac a yw'n gyson â'r polisi cenedlaethol? A fydd yn cael ei gyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun?

Darpariaeth

1. A ddylai Polisi 47 gael ei symud i Bennod Dibenion a Strategaeth Ofodol y Parc Cenedlaethol?

2. O ran yr angen am dai, a yw ffigur o 960 o anheddau yn briodol?

- a) A yw'r Cynllun wedi cael ei lywio gan asesiad cadarn o'r angen am dai, gan ystyried Polisi Cynllunio Cymru?

- b) Wrth gyrraedd y ffigur ar gyfer yr angen am dai, a roddwyd ystyriaeth ddigonol i amcanestyniadau aelwydydd a phoblogaeth Llywodraeth Cymru?
 - c) A ystyriwyd senarios mewn perthynas â thwf tai amgen; os felly, pam y cawsant eu diystyru, a pham y dewiswyd yr opsiwn a ffefrir?
 - d) A yw ffigur yr angen am dai wedi cael ei lywio gan asesiad cadarn o'r prif ddylanwadau lleol ar y galw am dai yn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys, lleihad ym maint aelwydydd, lefelau mudo, a chyfraddau tai gwag?
 - e) A yw'r Cynllun yn rhoi gormod o bwyslais ar dai marchnad fel galluogwr ar gyfer darparu tai fforddiadwy?
3. A yw'r cyfrifiadau cyflenwad tai o 1,150 yn briodol?
- a) Beth yw cyfansoddiad y cyflenwad tir ar gyfer tai?
 - b) A ddylai Polisi 48 hefyd gynnwys manylion y safleoedd a ymrwymwyd?
 - c) A yw amcangyfrif yr unedau o safleoedd a fydd yn deillio o safleoedd ymrwymedig a safleoedd annisgwyl yn realistig ac yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael? A yw lwfans 'methu â chyflenwi' wedi'i ddiffinio a'i gymhwyso?
 - d) Sut y diffiniwyd y lwfans hyblygrwydd o 16%, ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn?
 - e) A fydd cyflenwad 5 mlynedd o dai yn ystod cyfnod y Cynllun? Sut mae hyn wedi'i gyfrifo?
4. A fydd y Cynllun yn cyflawni'r gofyn am dai?
- a) A yw'r dyraniadau safle ar gael ac a oes modd eu cyflawni o fewn yr amserlenni disgwylidig? A yw'r dyraniadau yn cael eu cefnogi gan fethodoleg gadarn a chynhwysfawr ar gyfer asesu safleoedd, heb gyfyngiadau datblygu sylweddol ac wedi dangos eu bod yn hyfyw yn economaidd?
 - b) A ddylai Tabl 7: 'Dyrannu Tai – Gofynion' gael ei symud i'r Atodiad, ei ymestyn i gynnwys safleoedd ymrwymedig, ac a ddylai gynnwys manylion yr holl gyfyngiadau hysbys, rhwymedigaethau cynllunio a'r gofynion o ran seilwaith?

Dosbarthiad

5. A yw dosbarthiad gofodol y ddarpariaeth dai yn gynaliadwy ac yn gydlynol?
- a) Sut y caiff datblygiadau annisgwyl newydd o fewn pob haen o'r hierarchaeth aneddiadau eu hasesu a'u rheoli?
 - b) A yw dosbarthiad gofodol y dyraniadau tai a chyfleoedd annisgwyl yn gyson â'r hierarchaeth aneddiadau a nodwyd?
 - c) A yw ffiniau'r ganolfan wedi'u llunio'n gyson ac yn gydlynol?
 - d) A ddylid dyrannu mwy o dir ar gyfer tai yn Ninbych-y-pysgod?
 - e) Yn absenoldeb ffiniau diffiniedig ar gyfer canol pentrefi bach a ellir rheoli lefel y twf yn effeithiol? A ddylai datblygiadau yn y pentrefi hyn gael eu cyfyngu i fewnlenwi yn unig?
6. A yw strategaeth tai'r Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid?

Mater 7 - Tai Fforddiadwy, Llety Sipsiwn a Theithwyr

Mater: A yw'r gofynion ar gyfer tai fforddiadwy a llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth gadarn a chredadwy ac yn gyson â'r polisi cenedlaethol? A fyddant yn cael eu bodloni yn ystod cyfnod y Cynllun?

Tai Fforddiadwy

1. A yw lefel yr angen am dai fforddiadwy yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn?
 - a) A yw'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn ddigon cadarn i lywio strategaeth dai'r Cynllun?
 - b) Beth yw raddfa'r angen am dai a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol?
 - c) Pa gymysgedd o ddeiliadaeth (ee rhent canolraddol neu gymdeithasol) ac o fathau o anheddau (maint ystafell wely) sydd ei angen?
 - d) A fydd y targed o 250 o dai fforddiadwy yn diwallu'r angen lleol am dai. Oss na, pa ddulliau eraill sydd ar gael?

2. A yw gofynion Polisi 49 yn glir, ac yn gyson â'r polisi cenedlaethol?
 - a) A ddylai gofynion Tabl 9 gael eu cynnwys yn y Polisi?
 - b) Sut y caiff cyfraniadau oddi ar y safle neu gyfraniadau ariannol ar gyfer tai fforddiadwy eu rheoli?
 - c) A ddylai'r Cynllun gynnwys polisi ar wahân ar gyfer sicrhau tai fforddiadwy ar safleoedd eithriedig mewn ardaloedd gwledig?
 - d) A oes angen cyfeirio at Bolisi 53?

3. A yw'r cyfraniadau tai fforddiadwy sy'n ofynnol yn seiliedig ar asesiad credadwy o hyfywedd?
 - a) A yw'r cyfraniadau tai fforddiadwy yn Nhabl 9 yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn o hyfywedd?
 - b) Sut y diffiniwyd y trothwyon safleoedd yn Nhabl 9?
 - c) A yw Tabl 9 yn adlewyrchu canfyddiadau'r Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy (NPA042), ac os na, pam?
 - d) Sut mae lefelau'r cyfraniadau wedi ystyried costau adeiladu cynyddol, rhwymedigaethau cynllunio, systemau draenio trefol cynaliadwy, a gofynion cysylltiedig eraill?
 - e) A yw costau adeiladu BICS yn ystyried cost darparu chwistrellwyr dŵr i ddiffodd tân? Os felly, pa lwfans fesul annedd a wneir ar gyfer y ddarpariaeth?
 - f) A yw Tabl 9 yn ddigon clir, yn enwedig o ran y gwahanol ofynion ar gyfer yr ardaloedd daearyddol, ac a ddylid dangos yr ardaloedd hyn ar y map cynigion?

4. A fydd y Cynllun yn cyflawni'r gofyn am dai fforddiadwy?
 - a) A yw'r targed o 250 o dai fforddiadwy yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn?
 - b) Sut fydd y targed ar gyfer tai fforddiadwy yn cael ei gyflawni?
 - c) Sut y sicrhau cyfraniadau oddi ar y safle, a pha ddulliau sydd ar waith i sicrhau bod lefel y cyfraniadau a geisir yn briodol?
 - d) A fydd Polisi 50 yn sicrhau amrywiaeth gytbwys o fathau o dai, deiliadaethau a meintiau, ac a yw'r lefel dwysedd sy'n ofynnol yn briodol ar gyfer y Parc Cenedlaethol?

5. A yw dosbarthiad gofodol tai fforddiadwy yn gadarn ac a yw'n adlewyrchu'r anghenion lleol yn ddigonol?

Llety Sipsiwn a Theithwyr

6. A yw'r Cynllun yn seiliedig ar asesiad cadarn o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr?

- a) A yw'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn ddigon cadarn i lywio strategaeth y Cynllun?
- b) A yw'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn nodi'r angen am leiniau Sipsiwn a Theithwyr newydd, parhaol a symudol, yn Sir Benfro dros gyfnod y Cynllun, a sut y caiff hyn ei gyflawni?

7. A yw Polisi 51 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer asesu cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ychwanegol, ac a yw'n gyson â'r polisi cenedlaethol?

Datblygiad Un Blaned

8. A yw gofynion Polisi 52 yn glir ac yn gyson â gofynion y polisi cenedlaethol?

Mater 8 - Safleoedd a Ddyrannwyd

Mater - A yw'r safleoedd a ddyrannwyd wedi'u seilio'n gadarn ac yn gallu darparu datblygiadau tai newydd dros gyfnod y Cynllun?

1. Materion i'w trafod ar gyfer pob safle lle bo'n briodol:

- Enw/cyfeirnod y safle a pharmedrau graddfa?
- Beth yw defnydd presennol y safle?
- Beth yw'r defnydd arfaethedig o'r safle?
- A yw enwi'r safle yn hanfodol i gadernid y Cynllun?
- A oes unrhyw rwystrau sylweddol rhag datblygu o fewn cyfnod y Cynllun?
- Beth yw'r amserlenni ar gyfer cyflawni?

Mater 9 - Fframwaith Monitro

Mater: A yw fframwaith monitro'r Cynllun yn gadarn ac yn addas i asesu'r ddarpariaeth dros gyfnod y Cynllun?

Monitro a Gweithredu

3. A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith monitro priodol a fydd yn ei alluogi i addasu i amgylchiadau sy'n newid?

4. A yw'r Cynllun yn darparu canllawiau clir ac effeithiol ar weithredu, monitro targedau a sbardunau i'w hadolygu?